pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 1

Pris: 50c

Papur Pawb

Rhagfyr 2025 Rhif 514

tud 4 **Ffair y Neuadd**

tud 6 **Cornel Cŵl**

tud 11 **Profi'r Pridd**

tud 12 **Ffair Aeaf**

Drip… Drip… Drip…

Dim Dŵr

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn troi at ein cyflenwad dŵr dyddiol heb feddwl llawer am y peth – dŵr i'r gawod, dŵr i goginio ac i'r baned yna o goffi, dŵr i olchi'r llestri a'r dillad. Mae'n anodd meddwl ffordd y byddem yn ymdopi heb y cyflenwad cyson yna a dyna fu'n her i breswylwyr Maes-y-Deri ddiwedd mis Tachwedd pan gafwyd problem sylweddol o ollwng dŵr o bibell ddŵr.

Dechreuodd y trafferthion ar ddydd Mercher, 19 Tachwedd gyda nifer o dai heb ddŵr o gwbwl. Roedd hynny'n ddigon o rwystr yn ei hunan i bawb heb ychwanegu at y broblem yn sgil ymateb araf ac anfoddhaol Dŵr Cymru i'r broblem. Yn wir nid oedd unrhyw ddŵr potel wedi cyrraedd o gyfeiriad Dŵr Cymru tan i'r Cynghorydd Catrin M S Davies eu ffonio nhw bore dydd Gwener, 21 Tachwedd a oedd yn hollol annerbyniol. I ychwanegu at y rhwystredigaeth fe wnaethon nhw ddod â dŵr i rai ond nid i bawb. Fe gollodd rhai trigiolion eu cyswllt ffôn a'r we gan y bu rhaid symud polyn i wneud y gwaith atgyweirio ar y bibell ddŵr.

Calondid mawr ydy clywed bod yr ysbryd cymunedol a chymwynasgar yn fyw ac yn iach ym mhentref Tal-y-bont gyda nifer o'r trigolion yn cynnig dŵr glân a'r defnydd o beiriannau golchi ac ati. Bu'r Neuadd Goffa ar agor hefyd ar y dydd Gwener i bobl allu llenwi fflasg â diod boeth a llenwi photeli.

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 2

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:
Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:
Cysyllter â golygydd y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:
Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:
Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
07507 652092

Rhwydweithiau cymdeithasol:
Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:
Helena O Sullivan, Bont-goch
07812 994 008

Dylunio:
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Casglu'r Papur:
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

Dosbarthwyr:
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Cathryn (cat_yfoel@hotmail.com) a Siwan Haf (siwanjones8@hotmail.com) fydd yn golygu rhifyn Ionawr 2026.

Dyma'r tro cyntaf i Siwan i ymuno â'r tîm a diolch iddi am wirfoddoli.

Y dyddiad cau yw 2 Ionawr a bydd y papur ar werth ar 9 Ionawr.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2025 – dros £27,600 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
Tel: 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 10fed 2026

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

Llythyr

Mae Grŵp Gweithredu Waun Hesgog (WHAG) yn gwrthwynebu cynnig fferm wynt Waun Hesgog. Os caniateir iddo fynd rhagddo, bydd gan y datblygiad hwn ganlyniadau dwys a diwrthdroi i'n holl gymunedau lleol ac eto mae'n cael ei orfodi arnom heb unrhyw wybodaeth, ymgynghoriad nac amser ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion yn iawn. Mae WHAG wedi bod yn dosbarthu taflenni yn y cymunedau yr effeithir arnynt i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei gynnig – yn enwedig maint a graddfa arbrofol y tyrbinau sydd, ar 220m, yn dalach nag unrhyw strwythur yng Nghymru a phedair gwaith maint y tyrbinau presennol ar 55m. Byddai'r cynnig hwn ar ei ben ei hun yn diwydiannu dros 7,000 erw o rai o'r tirweddau harddaf yng Nghymru, a byddai'n cael ei adeiladu ar fawndir sy'n amddiffyniad naturiol hanfodol yn erbyn chwalfa hinsawdd.

Mae tudalen Facebook Grŵp Gweithredu Waun Hesgog bellach ar gael: https://www.facebook.com/groups/3139266582899661. Mae aelodau'r grŵp hefyd wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau lleol, ffeiriau Nadolig ac ati i ddosbarthu taflenni a siarad â'r cyhoedd. Rydym yn cysylltu â grwpiau cymunedol eraill yng nghanolbarth Cymru a Mynyddoedd Cambria sy'n wynebu cyfres o gynigion tebyg, yn ogystal ag ymgysylltu â chyrff a sefydliadau bywyd gwyllt ac amgylcheddol lleol.

Nid oes gan WHAG unrhyw gysylltiad gwleidyddol ond mae'n bodoli i amddiffyn ein tir a'n cymunedau, i ni ein hunain ac i genedlaethau'r dyfodol rhag yr ecsbloetio diwydiannol ac amgylcheddol niweidiol hwn gan endidau allanol. Mae'r grŵp yn croesawu unrhyw un a all roi awr neu ddwy i helpu. Cysylltwch â ni ar Facebook neu yn talybontturbineinfo@gmail.com.

Barry Wise

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

RHAGFYR

13 **Gŵyl Coed Nadolig Cymunedol** 12–3 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
14 **Bethel** 10 Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 4 Gwasanaeth Carolau (gwin cynnes a mins peis i ddilyn yn Ynyshir)
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun
Parti Nadolig y Plant 3–5 Neuadd Llanfach
17 **Gyrfa Chwist Nadolig, Sioe Tal-y-bont** 8.00 Neuadd Goffa Tal-y-bont
Bore Coffi Gofalaeth Newydd Gogledd Ceredigion 10.30 Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth
Bore Coffi 10.30–12 Neuadd Llanfach
Cyngerdd Nadolig 7 Neuadd Llanfach
18 **Bingo** 7.30 Wildfowler
19 **Cwis** 8 Wildfowler
20 **Gŵyl Coed Nadolig Cymunedol** 12–3 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
Gwasanaeth Carolau Cymunedol gan Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach a Chapel Rehoboth 4 Neuadd Llanfach
21 **Gŵyl Coed Nadolig Cymunedol** 12–3 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach
24 **Bethel** 5.30 Gwasanaeth Noswyl Nadolig yr Ysgol Sul
25 **Eglwys Sant Pedr, Elerch** 8 Cymun Bendigaid
Bethel 10 Gwasanaeth Bore Nadolig
28 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

IONAWR

4 **Bethel** 10 Judith Morris
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
5 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 'John Tomos Lerpwl' (Iwan Jones)
8 **Bingo** 7.30 Wildfowler
9 **Cwis** 8 Wildfowler

BOB WYTHNOS
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Bore Mawrth 10–12
Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
Cletwr Dydd Mawrth 1–4
'Clonc a Gweu'

Hoffai **Ann Jenkins**, **Llety'r Bugail**, ddymuno Nadolig heddychlon a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, yn deulu ac yn ffrindiau.

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 3

Pobl a Phethe

Llwyddiant i Becca

Llongyfarchiadau i Becca Fleming-Jenkins, 12 Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar ei llwyddiant diweddar gyda'i cheffylau. Daeth Becca yn ail ym Mhencampwriaeth Dressage Prydain gyda'i cheffyl, Bertie. Ceffyl rasio wedi ymddeol yw Bertie, ac mae Becca ei hun wedi ei hyfforddi a'i ailddysgu yn y gamp ac mae bellach yn cystadlu'n llwyddiannus ar hyd y wlad. Mynychodd Becca a'i cheffyl Lottie hefyd y ffair aeaf yn Ynys Môn gan gipio pencampwriaeth y sioe. Mae Becca yn edrych ymlaen yn fawr i barhau i gystadlu ar y Dressage gyda Bertie ac i ddangos Lottie i'r dyfodol gyda'r bwriad o symud ymlaen i gystadlu gydag hithau hefyd ar y Dressage.

Llwyddiant
Mae Ysgol Penweddig, Aberystwyth, sydd yn gwasanaethu pobl ifanc yr ardal hon, wedi derbyn clod uchel trwy ddod yn drydydd dros Gymru gyfan mewn rhestr o ysgolion a fu'n llwyddiannus mewn arholiadau.
Cyn-brifathro Ysgol Tal-y-bont, Clive Williams, yw Pennaeth Penweddig.

Coffi a Chlonc Llangynfelyn
Roedd y cyfarfod misol yn Neuadd Llanfach yn llwyddiant mawr unwaith eto. Daeth llawer o bobl ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu a mwynhau amser braf. Mae'n galonogol gweld wynebau newydd yn ymuno, ac rydym bob amser yn hapus i roi croeso cynnes i fwy. Dewch gyda ffrind neu ar eich pen eich hun ar y trydydd bore Mercher o'r mis – mae croeso cynnes, paned poeth a chacen yn eich aros yn Llanfach! Rydym yn ddiolchgar iawn am y grantiau a'r rhoddion yr ydym wedi eu derbyn tuag at gostau cynnal y Coffi a Chlonc.

Cydymdeimlo
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth un o gyn-ddisgyblion disgleiriaf Ysgol Tal-y-bont, sef Christine Williams, merch y diweddar Jim a Sara Margaret Williams, a chwaer Michael a Jane. Fe fu Christine yn gyfreithwraig yng Nghanolbarth Lloegr am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Caneuon Sioe Gerdd Newydd
Ar nos Sadwrn, 24 Ionawr 2026, bydd perfformiad ecsgliwsif o gasgliad o ganeuon sioe gerdd newydd, Ymlaen Mimosa, yn cael ei gynnal yn y Tabernacl ym Machynlleth.

Bydd y cyngerdd yn olrhain hanes yr amgylchiadau a arweiniodd at ymfudo'r Cymry i Batagonia yn 1865, i nodi 160 mlynedd ers pan hwyliodd llong y Mimosa i Borth Madryn.

Dyma gyfle i fyw yr hanes llawn cyffro, yn dristwch a llawenydd, yng nghwmni 14 o unawdwyr talentog, band byw a storïwr. Mae tocynnau ar gael yn y Tabernacl (01654 703355) neu ar eu gwefan (https://moma.cymru/e/ymlaen-mimosa/).

Ymwelwyr o Siapan

Dyma llun o'r grŵp o wyth daeth draw i Aberystwyth ym mis Tachwedd. Ymwelodd y grŵp o dref gefeilliaid Aberystwyth, Yosano yn Japan. Mae'r gyfnewidfa ysgolion wedi bod yn digwydd ers deugain mlynedd.

Sefydlwyd y gyfnewidfa gan y cyn-garcharor rhyfel Mr Frank Evans a ddychwelodd i Japan gyda chriw ffilmio yn yr 1980au i ddod o hyd i heddwch a chymod.

Mae'r llun yma yn dangos y grŵp gyda Mr Arwel George yn ymweld â bedd Mr Evans yn Nhal-y-bont.

Efeilliaid
Llongyfarchiadau mawr i Anthony Southgate, Dan y Dderwen, Tal-y-bont, ar ddod yn dad-cu unwaith eto. Ganwyd dau fachgen i Robbie a Monica ddechrau mis Rhagfyr.

Dathliadau
Pen-blwydd hapus i Cathy Jones, Bontgoch a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Hefyd, llongyfarchiadau i'w merch Alannah ar ei phriodas gyda Lewis John Williams ym mis Hydref.

Ymddeoliad
Dymunwn ymddeoliad hapus i Jane Wilson, Aldir, Tal-y-bont – mwynhewch yr hamddena!

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Stephen a Carolyn Evans, Elgar, Tal-y-bont ar enedigaeth ei hŵyr bach, Jac Elis. Mab i Kirsty a Tom Griffiths, a brawd bach i Ela Haf.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Aldwyth Morgan, gynt o Maesmawr, Tal-y-bont, sydd wedi cael damwain yn ddiweddar ac sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal yn Ysbyty Bro Ddyfi, Machynlleth.

Dymunwn wellhad buan i Lela Jenkins, Penlonlas, Tal-y-bont, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Morriston yn ddiweddar. Brysia wella, Lela!

Pen-blwydd arbennig
Dymuniadau gorau i Trish Huws, Llwyn Onn, Pentrebach, Tal-y-bont, sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hyrwyddo'r Defaid Zwartbles
Llongyfarchiadau mawr i Susan Rowlands, Erglodd ar gael ei hethol i fod yn aelod o Gyngor Cymdeithas Defaid y Zwartbles a hynny dros Brydain. Tipyn o gamp a phob hwyl gyda'r gwaith.

GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 4

Creu Lle Ceredigion

Mynegi safbwyntiau gyda'r trefnydd, Chris Jones

Cynhaliwyd digwyddiad bywiog yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar ddydd Gwener 21 Tachwedd fel rhan o brosiect mawr 'Creu Lle Ceredigion' dan ofal Cyngor Sir Ceredigion.

Mae Tal-y-bont yn un o 13 cymuned wledig yng Ngheredigion a ddewiswyd i gymryd rhan yn y prosiect. Yn ôl y wefan y nod yw ceisio '... helpu eich cymuned i ddeall eich anghenion, llunio eich gweledigaeth a nodi blaenoriaethau' a '... galluogi lleoedd i fuddsoddi ac adfer eu mannau cymunedol a chreu'r sylfeini cywir ar gyfer datblygiad economaidd ar lefel cymdogaeth.'

Roedd y Neuadd yn agored rhwng 12.00 a 7.00 y prynhawn a daeth nifer o drigolion y cylch yno i fynegi barn a chymryd rhan mewn rhai gweithgareddau. Ar yr un pryd roedd tîm dan ofal Heledd Wyn o'r Brifysgol yn Aberystwyth yn crwydro'r pentref i ffilmio cyfweliadau.

Yn y Neuadd roedd yr arlunydd talentog Meinir Mathias yn tynnu llun trawiadol o'r pentref.

Roedd cyfle i holi hwn a'r llall a chyfle i osod baner fach gyda sylwadau perthnasol ar leoliadau ar fap o'r gymuned ac mae rhai o'r sylwadau (ond nid y cyfan hyd yn hyn) wedi ymddangos ar y map rhyngweithiol sydd ar wefan y prosiect. Mae modd ychwanegu sylwadau pellach ar y map rhyngweithiol.

Roedd holiadur papur hefyd ar gael er mwyn mynegi barn ac mae hwnnw hefyd ar gael yn ddigidol ar y wefan gan roi cyfle i'r rhai na fu yn y digwyddiad i ddweud eu dweud.

Er yr holl weithgaredd, ni wyddom beth a ddaw o'r ymgynghoriad ac mae'n siwr fod trigolion pentrefi a chymunedau cyfagos fel Taliesin ac Eglwysfach yn siomedig gan iddynt fethu â chael yr un sylw.

Serch hynny, mae'n werth ymweld â gwefan y prosiect (www.creu-lle-ceredigion.cymru) am wybodaeth bellach, er ei fod yn awgrymu bod Tal-y-bont yn 11 milltir o Aberystwyth yn hytrach na 7 milltir!

GJ

Yr arlunydd Meinir Mathias yn tynnu llun o'r pentref

Ffair y Neuadd

Diolch i ymdrechion llawer iawn o bobl a chefnogaeth y gymuned llwyddwyd i godi bron i £1400 yn Ffair y Neuadd cyn y Nadolig, swm fydd o gymorth mawr i'r Pwyllgor Rheoli wrth geisio cadw prisiau llogi i lawr yn wyneb costau cynyddol.

Unwaith eto eleni bu llawer o'r mudiadau sydd yn defnyddio'r Neuadd yn ystod y flwyddyn yn gyfrifol am stondinau amrywiol ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddynt am eu haelioni.

Eleni eto denwyd nifer o fasnachwyr a chrefftwyr lleol gan ychwanegu at brysurdeb ac amrywiaeth yr achlysur. Diolch iddynt hwythau hefyd am eu cefnogaeth i'r Neuadd.

Bwrlwm y ffair

Agorwyd y Ffair gan Is-gadeirydd Pwyllgor y Neuadd, Gwenallt Llwyd Ifan.

Yn ogystal â'r cyfle i brynu, wrth gwrs, mae'r prynhawn yn gyfle i gymdeithasu dros baned a chacen gydag aelodau o'r Pwyllgor yn gyfrifol am y lluniaeth.

Stondin Papur Pawb yn y Ffair

Cafwyd yr hwyl arferol wrth dynnu'r Raffl fawr gyda sawl hamper hyfryd i'w hennill. Aeth y prif wobrau eleni i Lisa Llety Ifan Hen, Delyth Ifan a Gerwyn Jones. Diolch i bawb am eu haelioni wrth gyfrannu at y gwobrau ac i'r cyhoedd am brynu. O ganlyniad, codwyd dros £300 ar y Raffl yn unig.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth, ac am hwyluso'r trefniadau gan sicrhau fod lle Ffair y Neuadd yng nghalendr cymdeithasol y pentref yn sicr am flynyddoedd i ddod.

Y dyddiad nesaf i'w gofio yw nos Fercher 11 Chwefror pan gynhelir Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli y Neuadd Goffa, cyfarfod sydd yn agored i'r cyhoedd. Beth am ymuno â'r Pwyllgor a helpu i gyfrannu at lwyddiant adnodd holl bwysig i'r gymuned gyfan.

Cofiwch hefyd am Hwyl Ddewi eleni a gynhelir nos Sadwrn 7 Mawrth o 6.30 ymlaen. Darperir adloniant ar ôl y cawl gan dalent lleol. Croeso cynnes i bawb.

DPhD

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 5

Ysgol Tal-y-bont

Ffarwelio â Mrs Hughes

Diwrnod 'Sanau Od

Tomos a Daniel

Dosbarth Allt y Crib

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau mesur hyd, gan ddewis a defnyddio offer yn ofalus. Cawsom hwyl yn rholio clai i wahanol hydoedd a mesur hyd ein traed! Wrth i'r tywydd droi'n arw, roedd rhaid achub mantais ar fore braf ac fe aethon ni allan i fesur taldra pob plentyn yn y dosbarth. Roedd rhaid amcangyfrif yn gyntaf ac yna creu siart bar gan ddefnyddio Microsoft Excel. Yn Saesneg rydym wedi bod yn canolbwyntio ar greu dyddiadur. Ar ôl creu mapiau stori rydym wedi mynd ati i ddewis sut i gyflwyno'r dyddiaduron. Mae rhai wedi ysgrifennu, teipio, creu stribedi cartŵn ac mae creu flog wedi bod yn boblogaidd!

Dosbarth Braich Garw

Mae dosbarth Braich Garw wedi bod yn paratoi ar gyfer y Ffair Nadolig. Rydym wedi bod yn edrych ar wahanol syniadau y byddem yn gallu eu gwerthu. Rydym wedi edrych ar brisiau'r gwahanol eitemau y byddem eu hangen ac wedi cymharu mewn gwahanol siopau. Roedd ymchwil marchnad hefyd yn bwysig iawn a chreodd pob grŵp holiadur dwyieithog i weld a fyddai pobl yn fodlon prynu eu cynhyrchion a faint y byddent yn fodlon ei dalu. I hyrwyddo'r Ffair Nadolig a'u cynhyrchion, mae pob grŵp wedi gweithio i ysgrifennu sgript ac yna defnyddio Adobe i greu hysbyseb. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i ddysgu'r holl ganeuon a'r sgript ar gyfer y sioe Nadolig!

Cafodd Blwyddyn 6 gyfle i fynd i Benweddig i wylio'r sioe "Annie". Roedd yn wych! Cafon ni amser gwych yng Ngŵyl Chwaraeon a gynhaliwyd gan Geredigion Actif. Cawsom gyfle i roi cynnig ar wahanol chwaraeon, fel pêl-fasged, athletau, pêl-droed a hoci.

Diolchgarwch

Cawsom wasanaeth hyfryd yng Nghapel Bethel ar y 5ed o Dachwedd. Roedd y capel yn gynnes braf a'r plant wedi gwneud eu gorau glas. Diolch yn fawr i Mr Ieuan Morgan am baratoi ar ein cyfer. Diolch yn fawr am yr holl gyfraniadau ar gyfer Jubilee Storehouse.

Ymweliad

Diolch i Mr Gwyn Jenkins am ddod i'r ysgol i gwrdd â phlant CA2 i ddangos lluniau ac i rannu ffeithiau am bentref Tal-y-bont. Mae'r pentref wedi newid tipyn dros 3,000 o flynyddoedd!

Diwrnod 'Sanau Od

Diolch i'r Llysgenhadon Lles am gynnal gwasanaeth a sesiynau addurno 'sanau fel rhan o Wythnos Gwrth-fwlio.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu'r diwrnod. Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo pyjamas! Yn y prynhawn cawsom gacennau wedi cyfrannu gan y staff a'r Cyngor Ysgol a chawsom hwyl yn dawnsio yn dawnsathon wedi ei ysbrydoli gan Trystan ac Emma o Radio Cymru.

Ffarwelio â Mrs Hughes

Rydym yn dymuno'r gorau i Mrs Hughes yn ei swydd newydd ac yn diolch yn fawr iddi am ei hymroddiad i ddysgu a helpu disgyblion Bl 5 a 6 am 14 o flynyddoedd. Gobeithio y bydd hi'n galw heibio i ddweud helo o dro i dro.

Croeso

Hoffem groesawu Ms Lindsey Wilkins fel athrawes newydd i Ddosbarth Braich Garw. Gobeithio ei bod hi'n setlo'n dda a'i bod yn mwynhau dod i adnabod y plant a chymuned yr ysgol.

CogUrdd

Llongyfarchiadau mawr i Katri am gyrraedd rownd derfynol Ceredigion yng nghystadleuaeth CogUrdd eleni. Yn y rownd ysgol roedd rhaid creu brechdan agored ac fe enillodd Katri gyda'i brechdan eog wedi mygu, wy a saws hufen wedi'i suro. Yna roedd rhaid mynd ati i goginio brecwast sawrus yn y rownd rhanbarth ac fe benderfynodd Katri fynd ati i greu Shakshuka. Roedd rhaid iddi fynd i Ysgol Bro Teifi i gystadlu. Daeth yn y ddau uchaf yn y grŵp yn y rownd gynderfynol ac felly roedd hi'n cael cystadlu eto yn y ffeinal! Roedd y Shakshuka'n edrych yn fendigedig!

Rygbi Ysgolion Ceredigion

Rydym yn falch iawn o Daniel a Tomos sydd yn rhan o dîm rygbi Ysgolion Ceredigion. Maent yn gorfod teithio'n bell i hyfforddi a chwarae – ond dyma nhw ar ddiwedd gêm gartref yn Aberystwyth yn erbyn Eryri.

CogUrdd

Diwrnod Plant Mewn Angen

Cyngor yr Ysgol gyda chyfraniadau o'r Gwasanaeth Diolchgarwch

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 6

Yn **Natur**iol

Colli globen o goeden

Wrth deithio o Dal-y-bont tua'r môr, dan Allt y Crib a thua'r ffordd o Dre Taliesin i Ddôl-y-bont daw goeden amlwg i'r golwg ar y gyffordd yn nhŷ Cae'r Gog neu Lorelei. Hen goeden iwcaliptws nobl, hardd a chadarn oedd hi cyn i storom Claudia ei siglo fel bod y gwreiddiau yn torri'r wal ger y ffordd a'i gwneud yn beryglus i'r tŷ a gwifrau Scottish Power; nhwythau gymerodd y cyfrifoldeb a'r gost o'i dymchwel.

Rhaid oedd cwympo globyn o goeden a dyna fu un bore Sadwrn. Colled yn wir nid yn unig oherwydd ei maint ond oherwydd ei hynodrwydd a'i hamlygrwydd does ots o ba cyfeiriad yr oeddech yn teithio. Yn aml roedd ei rhisgl i'w weld ar y gyffordd a'i boncyff yn fwy na all unrhyw berson gwmpasu, cymaint ei maint. Serch hynny Claudia gafodd y gair olaf a lawr y daeth yn araf ac yn osgeiddig fel oedd yn weddus, gan gwmni proffesiynol iawn, ni bu hyd yn oed rhaid cau'r ffordd. Fesul brigyn i ddechrau, yna'r canghennau lleiaf wedyn y mwyaf fesul darn, gan osgoi y gwifrau wrth gwrs, a'r boncyff yn olaf.

Achosodd Claudia doriad yn y trydan yn y cyffinau hefyd, y rhan fwyaf o dai y cylch am chwech awr a dau dŷ am bymtheg awr.

Beth oedd oedran ein hiwcaliptws tybed? Dan amgylchiadau perffaith, mewn gwledydd fel Awstralia (gumtree iddyn nhw) gall goeden iwcaliptws dyfu i 70 troedfedd, uchder hon, mewn deng mlynedd! Felly amhosib amcangyfrif ei hoedran yng Nghymru ond mwy na hanner can mlwydd oed beth bynnag.

Dowch, ar droed, beic neu mewn car, i weld yn hyn sy'n weddill, rydych yn siwr o'i chofio hi yn ei holl gogoniant.

Rhys Huws



Y goeden cyn ei thorri

Cornel Cŵl

A	Y	V	D	A	T	H	L	U	S	T	G	V	C
N	Q	R	C	J	T	I	N	F	E	F	Y	O	X
R	D	M	C	G	A	W	G	O	R	J	S	C	Z
H	Y	U	I	E	S	U	R	Z	E	H	G	T	M
E	N	L	E	M	Q	J	Z	C	N	Z	E	E	F
G	E	Z	F	A	Q	S	J	V	I	P	W	U	K
I	I	C	F	I	E	K	H	E	G	W	Y	L	H
O	R	E	R	R	S	J	T	C	E	D	L	U	C
N	A	L	I	Y	A	O	D	I	C	I	L	L	O
K	F	Y	N	O	N	S	A	S	N	N	P	F	E
E	I	N	D	T	T	E	Q	N	R	S	X	K	D
A	Q	W	I	B	A	F	P	T	G	T	E	K	E
K	A	I	A	M	F	F	Z	S	V	E	M	L	N
A	R	J	U	C	A	R	O	L	A	U	L	C	C

Chwilair Nadolig

ANGEL
SANTA
DYNEIRA
TWRCI
PWDIN
MAIR
COEDEN
TEULU
YSGEWYLL
SEREN
JOSEFF
CELYN
FFRINDIAU
TINSEL
ANRHEGION
CAROLAU

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 7

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Ddiwedd mis Tachwedd, cynhaliwyd cyfarfod olaf y Cyngor am y flwyddyn. Nodwyd bod ymateb trigolion Tal-y-bont i'r cyfarfod agored a drefnwyd gan brosiect Creu Lleoedd Ceredigion yn y Neuadd Goffa wedi bod yn wych. Diolch i bawb a wnaeth yr ymdrech i alw heibio.

Cafwyd gwybod bod y Cyngor Sir 'nawr yn bwriadu gosod mannau gwefru ceir trydan wrth ymyl y Patshyn Glas, ond does dim dyddiad wedi'i bennu hyd yma. Mae'r Cynghorwyr hefyd mewn trafodaeth â'r Sir i geisio cadw'r toiledau cyhoeddus yn agored, ond cawn weld beth ddaw o hynny maes o law.

I'r rheiny sydd â diddordeb, mae'r Adroddiad Adran 6 (Bioamrywiaeth) bellach i'w weld ar wefan y Cyngor, ynghyd â nifer o bolisïau ac adroddiadau eraill. Byddwch yn falch o glywed bod yna gynllun ar waith i gael gwared ar y Clymog Japan (Japanese knotweed) sy'n tyfu yn y Cae Bach. Os na chaiff y gwaith ei wneud yn iawn, gallai'r chwyn hwn ledaenu i rannau eraill o'r Cae Bach ac i erddi cyfagos , felly gofynnwn yn garedig i chi beidio â rhoi cynnig arni eich hunain.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gorffen archwilio cyfrifon a chofnodion 2024-25 erbyn hyn, a chafwyd bod popeth mewn trefn. Un peth a godwyd oedd bod angen ymgynghori mwy â'r trigolion lleol, felly mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â hyn yn y flwyddyn newydd. Mae barn yn archwilydd a'r ffurflen flynyddol i'w gweld yn yr hysbysfyrddau ac ar y wefan.

Nodwyd bod coeden wedi cwympo yng nghae chwarae Bont-goch – rydym yn trefnu i hon ac unrhyw rai eraill sy'n beryglus, gael eu symud, ond yn y cyfamser, cymerwch ofal os byddwch yn mynd yno. Llwyddwyd i godi dros £200 at gronfa Cae Bach yn Ffair y Neuadd, felly diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth. Cofiwch am yr Helfa Drysor Adfent sy'n cael ei chynnal yn ystod mis Rhagfyr. Mae'r mapiau ar werth yn Garej Davmor, neu gofynnwch i un o'r Cynghorwyr am fanylion. Llongyfarchiadau i enillwyr Clwb 200 mis Tachwedd, sef Siân Saunders, Dylan Davies, a Lola Williams. Bydd yr enillwyr nesaf yn cael eu dewis ym mis Ionawr.

Ac yn olaf, diolch i bawb, gan gynnwys plant Ysgol Tal-y-bont, ddaeth at ei gilydd i greu hwyl y Nadolig yn y Patshyn Glas ar y 4 Rhagfyr. Cafwyd cyfle i ganu carolau, bwyta ychydig o fins peis, a gwylio goleuadau'r goeden yn cael eu cynnau am y tro cyntaf eleni.

Nadolig Llawen!

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00

01970 832 674

Sudoku Papur Pawb

5	1			3			8	
		2	6		9	5	7	
2		8	1					9
	9							
7		3	2					6
		1	8		5	4	2	
8	6			4			1	

Dyma Sudoku Papur Pawb. Rhowch rhif o 1 i 9 ym mhob cell wag fel bod pob rhes, colofn a blwch yn cynnwys pob rhif o 1-9 heb ail-adrodd. Cofiwch ddefnyddio rhifau Cymraeg yn unig!

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2025/26

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau lleol. I gael copi o'r Ffurflen Gais a Pholisi Dyrannu Grantiau y Cyngor, cysylltwch â'r Clerc.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gais heb weld copi o'r fantolen ddiweddaraf neu fanylion sefyllfa ariannol bresennol y mudiad.

Anfonwch eich ffurflen gais at:
Lynwen Rees Jones
Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
Llys y Bryn, Tre'r-ddôl, Machynlleth SY20 8PN
neu
CyngorCMM@gmail.com
erbyn 5 Ionawr 2026 fan bellaf

NICEIC APPROVED CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

M 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 8

CFfI Tal-y-bont

Mis Llawn Gweithgareddau i CFFI Tal-y-bont

Mae mis Tachwedd wedi bod yn un hynod brysur i aelodau CFFI Tal-y-bont, gyda gweithgareddau a digwyddiadau yn llenwi pob wythnos.

Ar ddydd Iau,13eg o Dachwedd, wnaeth y clwb gynnal noswaith cyfnewid clybiau yn y Neuadd Goffa gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc Llanddeiniol a Llangwyryfon. Roedd y noswaith yn llawn hwyl a llawn gemau hwyliog i'r aelodau ifanc a hŷn y clybiau.

Ar 18fed o Dachwedd, aeth aelodau'r clwb ar ymweliad addysgiadol i Fferm Glancarrog, Llanrhystud. Yno, fe ddysgon ni am rôl gynyddol roboteg ym myd amaeth, gan gynnwys systemau godro modern.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, ar 21ain o Dachwedd, aeth rhai o aelodau'r clwb i Chwaraeon Dan Do y Sir, yn Llanddewi Brefi. Unwaith eto, cafwyd noson llawn egni a chydweithio, gyda phawb yn cymryd rhan mewn ysbryd cystadleuol ond cyfeillgar.

Daeth diwedd y mis gyda digwyddiad poblogaidd iawn, sef Ffair Neuadd Tal-y-bont ar bnawn Sadwrn y 29ain o Dachwedd, lle cynhaliodd CFFI Tal-y-bont ei stondin tombola blynyddol. Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd wobrau ac a gefnogodd y stondin; roedd y stondin yn brysur drwy'r pnawn ac yn llwyddiant mawr unwaith eto. Casglwyd swm o £130.40 tuag at y Neuadd Goffa.

Yn olaf, hoffai'r clwb longyfarch Ynyr Siencyn, Tanrallt ar ei lwyddiant arbennig yn ennill y gystadleuaeth Barnu Gwartheg Cigyddion dan 21, yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.

Ela Jones

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Estynnwyd croeso i Ffion George i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar brynhawn Mawrth, 11 Tachwedd. Mae Ffion yn byw yn Llanfihangel-y-Creuddyn ac yn gweithio gyda'i thad ar y fferm adref. Pan oedd yn Ysgol Penweddig bu'n astudio celf fel pwnc Lefel A, a gan ei bod yn hoff o dynnu lluniau dyna fu'r ysbrydoliaeth iddi ddechrau busnes ei hunan o'r enw 'Llechi Ffion' drwy baentio lluniau o anifeiliaid ar hen lechi. Erbyn hyn mae'r fenter wedi tyfu i fod yn fusnes llwyddiannus iddi. Daeth â nifer o enghreifftiau o'r llechi paentiedig i'w dangos i ni, a diolchwyd yn gynnes iddi am sôn am ei gwaith a rhoi'r cyfle inni weld y gwaith manwl roedd hi wedi ei greu ar y llechi. Yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Bethan Davies a Non Griffiths.

Clwb Cant Neuadd Llanfach

Enillwyr mis Tachwedd:
1. 081 Heather Jones
2. 066 Val Mayhew
3. 020 Christine Beale

Enillwyr mis Rhagfyr:
1. 035 Sylvia Smith
2. 074 Iori Jones
3. 065 Keith Fogg

Cynhaliwyd Cinio Nadolig i henoed plwyf Llangynfelyn yn y Wildfowler ar 6 Rhagfyr

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL
01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 9

Teyrnged

Eirian Evans

Rywsut mae dros mis wedi pasio ers i ni golli Mam. Mae'r wythnosau ers ei marwolaeth wedi bod yn gyfnod o alaru ond hefyd cyfle i ni hel atgofion amdani.

Roedd ei chymuned, y Capel a'i Chymreictod yn bwysig iawn i Mam. Byddai'n aml yn sôn am ei balchder o deithio ar y bws i fynychu Ysgol Gynradd Pontrhydyfen – un o ysgolion Cymraeg cyntaf yr ardal. O fynychu protestiadau Cymdeithas yr Iaith ac ymgyrchu dros y Gymraeg, fe barhaodd yr angerdd hwn i'w gyrfa wrth iddi dreulio ei hamser yn sicrhau bod plant Powys yn cael mwy o'r Gymraeg yn eu bywydau.

Roedd cymuned Tal-y-bont – sydd yn un arbennig iawn – yn bwysig iawn iddi hefyd. Mae atgofion melys gennym ni'n dau o ddramau Nadolig Bethel, gyda Mam a Dad yn helpu gyda'r trefniadau. Rydyn ni hefyd yn cofio'r bwrdd bwyta adref yn llawn darnau o bapur a glud wrth i Mam a Dad gymryd eu tro yn tynnu rhifyn diweddaraf Papur Pawb ynghyd. Yn ogystal â rhannu ei harbenigedd wedi ymddeol i gefnogi Ysgol Tal-y-bont, fe gyfranodd Mam mewn amryw o ffyrdd eraill i'r gymuned ar hyd y blynyddoedd, ac roedd yr ysbryd cymunedol hwn yn rhan mawr o'n magwraeth.

Roeddem ni'n dau yn lwcus fel plant bod gennym ni rieni oedd am weld y byd, gyda atgofion arbennig iawn o'r pedwar ohonom ar wyliau gyda'n gilydd. Mae'r profiadau y buom mor ffodus i'w cael wedi ein siapio ni fel pobl ac roedd Mam wrth ei bodd yn clywed am ein cynlluniau nesaf ar gyfer teithio gyda'n teuluoedd ninnau.

Yn ogystal â sbarduno'r chwilfrydedd ynddom ni, roedd Mam a Dad yn dal i chwilio am anturiaethau eu hunain. Roeddem mor hapus i glywed hanesion a derbyn lluniau ohonyn nhw ar eu taith diweddaraf. Roedd ymweld â gwahanol lefydd yn dod â gymaint o hapusrwydd i'r ddau. Ond er y teithio, roedd yn gwbl amlwg i ni bod Mam ar ei hapusaf pan oedd hi wedi ei hamgylchynnu gan ei theulu, ac yn fwyaf pwysig oll yng nghwmni Dad.

Hoffai Dad a ni'n dau ddiolch i chi gyd am y cydymdeimlad, geiriau caredig a'r atgofion hapus o Mam sydd wedi eu rhannu gyda ni dros yr wythnosau diwethaf. Mae wedi bod yn gysur mawr i ni ar amser mor anodd. Hoffwn hefyd ddiolch i chi am y gofal a'r cymorth a roddwyd iddi hi, a'r cyfeillgarwch cynnes iawn iddi fwynhau, drwy gydol ei hoes.

Mewn un llythyr gan ffrind agos i'r teulu a gyrhaeddodd o fewn diwrnod i golli Mam roedd y geiriau doeth – "galar yw pris cariad". A heb os, mae'r poen o golli Mam mor sydyn wedi bod bron yn anioddefol. Mae'r gwacter o dan ein traed fel twll enfawr. Ond er y golled enfawr hon, bydd cyngor, doethineb, ac ysbryd Mam yn parhau gyda ni am byth.

Heledd Owen a Dyfan Evans

Colofn
Elin a Ben

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol i ni fel eich Aelodau etholedig heb os. Rhwng ceisio sicrhau cyllid ac amgylchiadau tecach i Gymru yn San Steffan, ceisio cefnogi'r rheini sydd wedi dioddef niwed i'w cartrefi o ganlyniad i stormydd a llifogydd, gweithio i gynrychioli ffermwyr a busnesau'r sir, a helpu etholwyr sy'n aros yn rhy hir am driniaethau iechyd.

Yn San Steffan, rydym wedi bod yn sicrhau nad yw Llywodraeth Prydain yn anghofio am effaith eu penderfyniadau arnom yma yng Ngheredigion. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig adroddiad yn galw ar Lywodraeth y DU i oedi'r newidiadau i Ryddhad Ardrethi Busnes ac Amaethyddol nes bod asesiad effaith penodol i Gymru wedi'i gynnal.

Ers 2017 dwi wedi gweithio gydag ymgyrchwyr lleol ar gael iawndal i fenywod a aned yn y 1950au a gafodd eu heffeithio gan newidiadau i'r pensiwn gwladol. Mae miloedd o fenywod wedi dioddef yn sylweddol oherwydd yr anghyfiawnder hwn. Roedd yn wych clywed cyhoeddiad gan y Llywodraeth i 'ailystyried' ei phenderfyniad gwreiddiol i wrthod yr iawndal yma.

Yng Nghaerdydd, cynhaliwyd protest gan Grŵp Amddiffyn Bronglais ar risiau'r Senedd i wrthwynebu cynigion Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gyflwyno gwasanaeth 'trin a throsglwyddo' i gleifion strôc Bronglais. Roedd yn braf croesawu Menter Cymru wrth iddynt gynnal digwyddiad i ddathlu menywod mewn busnes, gyda chyfraniadau gan Medina Rees (Medina, Aberystwyth) a Dr Jan Martin (Snail of Happiness, Llambed).

Roedd yn wych hefyd gallu croesawu Lindsay Whittle n'ôl i'r Senedd yn dilyn ei ymgyrch hynod o lwyddiannus yng Nghaerffili. A daeth newyddion gwych wrth i Brifysgolion Aberystwyth a Bangor gyhoeddi byddant yn datblygu ysgol ddeintyddiaeth newydd arall ar y cyd, bydd yn ein galluogi i hyfforddi mwy o ddeintyddion, a rhai bydd yn gallu siarad Cymraeg hefyd.

Wrth i ni baratoi ar gyfer y Nadolig bydd yn dda cael y cyfle i gefnogi ein busnesau lleol, ac i ddathlu ein crefftwyr a chynhyrchwyr bwyd yn y nifer o ffeiriau Nadolig ar draws y sir.

Cofiwch gysylltu â ni os ydych angen cymorth, a chadwch yn gynnes yn y tywydd oer.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

Elin Jones AS Ceredigion a **Ben Lake AS**
elin.jones@senedd.cymru; ben.lake.mp@parliament.uk
01970 624516; 01570 940333

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 10

Cletwr

Mae pawb mor brysur ar hyn o bryd fel ei bod yn anodd cofio beth sydd wedi digwydd yn ddiweddar, a beth sydd eto i ddod! Soniais y tro diwethaf am ein Ffair Grefftau, felly uchafbwynt y mis hwn oedd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pythefnos yn ôl. Daeth tua ugain o bobl i glywed y diweddaraf am sefyllfa Cletwr, i ofyn cwestiynau i'r Bwrdd a thrafod ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae ein sefyllfa ariannol yn llawer gwell na llynedd, yn bennaf diolch i garedigrwydd ein cefnogwyr a'n ffrindiau, a gyfrannodd dros £35,000 i'r apêl. Diolch o galon i bob un ohonynt. Er nad yw popeth yn berffaith eto, mae'r cynnydd a welwyd wedi digwydd oherwydd gwaith caled ac ymroddiad ein gwirfoddolwyr a'n staff.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch yn arbennig i Ant Jarrett a Jane Nichols, sydd wedi camu i lawr o'r Bwrdd, ond a fydd yn parhau i wirfoddoli gyda chymuned Cletwr. Yn ogystal, cawsom newyddion arbennig iawn y mis hwn – mae'r Loteri Fawr wedi dileu ei 'charge' ar yr adeilad ddeg mlynedd yn gynnar (yn dilyn y grant sylweddol a roddwyd pan gafodd yr adeilad ei godi). Mae hynny'n golygu fod Cletwr bellach yn eiddo yn llwyr i'r gymuned. Rydym yma o hyd, a byddwn yma hyd ddiwedd amser, os nad hyd ddydd y farn!

Uchafbwynt arall y mis oedd y sgwrs hynod ddifyr gan Nigel Callaghan ar hanes dathliadau Nadolig lleol yn Oes Fictoria. Dysgwyd fod Nadolig yn y Wyrcws yn llawn bwyd, baco i'r dynion ac oren i'r menywod a'r plant. Gobeithio bydd mwy o sgyrsiau tebyg yn ein rhaglen y flwyddyn nesaf.

Tra bo'r mis yn symud tuag at y Nadolig, nid oes mwy o adloniant wedi'i drefnu. Mae'r ffocws bellach ar ddarparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid, sicrhau bod y caffi'n llawn bwyd blasus a'r silffoedd yn llawn stoc.

Os hoffech chi archebu llysiau a ffrwythau i'w casglu ar Noswyl Nadolig, cofiwch wneud hynny erbyn 15 Rhagfyr. Mae'r un dyddiad yn berthnasol ar gyfer archebu ein cynnyrch cartref, gan gynnwys caws ar dost Jane, stwffin, tsytni moron a mwy. Mae ffurflenni archebu ar gael yn y siop ac ar ein gwefan.

Ar 18 Rhagfyr cynhelir tynnu'r Raffl Fawr ble fydd cyfle i ennill un wobr unigryw, sef hamper enfawr. Mae tocynnau ar werth yn y siop. Os na fyddwch yn lwcus gyda'r raffl, mae hampers eraill ar gael i'w prynu, neu gellir archebu rhai arbennig (bydd angen 3-4 diwrnod o rybudd ar gyfer y rhain). Maen nhw'n anrhegion Nadolig perffaith! Mae nifer o ddanteithion eraill yn y siop hefyd i lenwi sanau ffrindiau a theulu.

Bydd noson siopa hwyr tan 7yh ar Nos Wener, 19 Rhagfyr.

Ar wahân i Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan, byddwn ar agor fel arfer, gan ddilyn yr oriau arferol. A chofiwch – mae Caffi Cletwr yn le perffaith i fwynhau disgled a darn o gacen, neu gawl cynnes, i lenwi'r dyddiau tawel cyn dychwelyd i'r gwaith neu'r ysgol yn 2026.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Enwau Lleol ar y Ddeiseb

Ym 1923, gydag erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf wedi ysbrydoli cenhedlaeth yn erbyn gwrthdaro, trefnodd merched Cymru ymgyrch, nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, dros heddwch byd. Llofnododd 390,296 o ferched ddeiseb Goffa drwy Undeb Cynghrair y Cenhedloedd yn galw am 'Cyfraith nid Rhyfel' – i America ymuno, ag arwain y Cynghrair y Cenhedloedd newydd – drwy apelio at ferched America 'o gartref i gartref'.

Roedd ymgyrch Deiseb Heddwch Merched 1923 yn ymdrech wir ryfeddol ledled Cymru oedd yn cynnwys pob cartref ymron yng Nghymru, gydag ymgyrchwyr heddwch yn mynd o ddrws i ddrws, gyda chymorth trefnwyr sir a chymuned y 'Gynghrair'. Nododd y wasg yn Efrog Newydd fod y ddeiseb derfynol a gyflwynwyd i ferched America ragor na 7 milltir o hyd. Fe aethpwyd â hi i'r UDA mewn cist dderw gan Annie Hughes-Griffiths, Mary Ellis, Elined Prys, a Gladys Thomas, lle y'i cyflwynwyd wedyn i ferched America gan ddirprwyaeth heddwch Cymru.

Bellach mae'r ddeiseb wedi'i throsglwyddo i ofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd wedi trefnu prosiect i ddigido a mynegeio'r holl enwau sydd ar y ddogfen. Mae modd yn awr i weld y llofnodion ar y wefan yma: https://deisebheddwch.llyfrgell.cymru/

O dyrchu yn y mynegai mae modd darganfod enwau'r sawl a arwyddodd y ddeiseb o ardal Papur Pawb. Mae nifer fawr o ferched y cylch wedi gwneud hynny. Yn wir cymaint oedd y brwdfrydedd fel bod un ohonynt wedi arwyddo'r ddeiseb ddwywaith. Bydd y rhai hŷn ohonoch yn cofio Miss Ruffina Owen, Llys Terfyn, Tal-y-bont. Pan yn ifanc roedd hi'n byw yn Allt-goch. Er i'r enw gael ei gam fynegeio mewn un achos, gellir gweld ei bod hi wedi llofnodi'r ddeiseb ar ddau achlysur.



Ceir hefyd ambell i enw cyfarwydd iawn fel Lilian Edwards, Pencae, Taliesin a Katie, Margaret a Mary Isaac, Penygraig. Diddorol oedd sylwi hefyd bod rhai merched dall hefyd wedi cyflwyno eu henwau, fel Mary Roberts ac Edith Evans, y ddwy o Daliesin.

Mae'n ddifyr chwilio am lofnodion aelodau teuluoedd y cylch ac i ddysgu mwy am yr ymdrech i sicrhau heddwch gan mlynedd yn ôl.

Yn y Llyfrgell Genedlaethol ar hyn o bryd mae arddangosfa ddiddorol yn adrodd hanes y ddeiseb.

GJ

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 11

Profi'r Pridd

Y gynulleidfa yn gwrando ar gyflwyniad yr Athro Brewer, gyda'r Aelod Seneddol, Ben Lake, yn y cefn

Mae Tal-y-bont yn lle gwych i fyw gyda hanes cyfoethog o ffermio, mwyngloddio a gweithgareddau diwylliannol. Mae'r afonydd Ceulan a'r Leri yn cwrdd yn y pentref ac yn hanesyddol roeddent yn darparu pŵer i fanteisio ar y mwynau plwm ac arian yn yr ardal. Er bod arian a phlwm wedi cael eu cloddio yn yr ardal ers cyfnod y Rhufeiniaid, dim ond yn y 19eg ganrif y cynyddodd mwyngloddio a dechreuodd y pentref dyfu'n ddramatig o ran maint. Arweiniodd y gweithgaredd mwyngloddio hwn at wastraff y mwynau mewn cyrsiau dŵr ac at halogi sylweddol o afonydd a gorlifdir i lawr yr afon ac mae bellach yn achosi problemau halogi posibl i Dal-y-bont.

Ar ôl llifogydd 2012 a chyhoeddi adroddiad yn 2014 a oedd yn tynnu sylw at lefelau uchel o blwm yng ngorlifdir y Rheidol, yr Ystwyth, ac afon Clarach, ac i raddau llai, y Leri daeth yn amlwg y gallai halogiad plwm (Pb) fod yn broblem yn lleol.

Mae gan Grŵp Llifogydd Cymunedol Tal-y-bont gysylltiad agos â Phrifysgol Aberystwyth ac yn dilyn sgyrsiau gyda'r Athro Paul Brewer a'r Athro Mark Macklin cafwyd cyfle i gael gwybodaeth am gynnwys plwm priddoedd Tal-y-bont a'r cyffiniau. Yn ystod yr haf eleni cafodd trigolion yr ardal y cyfle i ddod â samplau pridd o'u gerddi ar gyfer eu profi. Cafodd y samplau eu gwerthuso gan ddefnyddio dadansoddiad Fflwroleuedd Pelydr-X.

Ar nos Wener, 21 Tachwedd cafwyd cyflwyniad gan yr Athro Paul Brewer a Mark Macklin yn y Neuadd Waelod yn Nhal-y-bont er mwyn rhoi cyd-destun, disgrifio'r sefyllfa gyffredinol ac i roi eu data pridd personol i'r rheiny oedd wedi cynnig samplau pridd. Yn dilyn y cyflwyniad roedd cyfle i holi cwestiynau a daeth pawb i sylweddoli bod y sefyllfa yn un gymhleth. Mae dau ran i'r broblem. Yn gyntaf, mae yna effaith mwyngloddio hanesyddol yn y bryniau, lle mae dalgylch uchaf yr afonydd, ac mae halogi dros amser hir ar y gwastadeddau lle mae llifogydd. Bob tro mae'r afon yn gorlifo mae gwaddodion plwm cyfoethog yn cael eu symud a'i ddyddodi ar y gwastadeddau lle mae llifogydd. Yn ail, mae mwynglawdd mawr Allt-yr-Crib uwch law Tal-y-bont ac mae hen domenni rwbel, y ceuffyrdd a lloriau trin o fewn cyrraedd y pentref.

Mae yma halogi sylweddol yn y pentref ond nawr rydyn ni'n gwybod ble mae hyn, gallwn ni gymryd camau i leihau ei effaith a byw bywyd diogel.

Roedd Ben Lake A.S. yn bresennol a nododd fod halogi sy'n deillio o'r chwyldro diwydiannol yn broblem eang yn y DG a bod hyn yn cael ei gydnabod ar y lefel uchaf o lywodraeth. Mae'r cydweithio yma yn enghraifft o Wyddoniaeth Dinasyddion ar waith ac rydym yn ddyledus iawn i'r ddau athro a Phrifysgol Aberystwyth am eu diddordeb a'u cymorth parod.

Os gyflwynoch chi samplau ac nad ydych chi wedi derbyn eich canlyniadau hyd yma, cysylltwch â Mick Fothergill neu Catrin M S Davies.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN
Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Y Gair Olaf

Neuadd

"There is no such thing as society. There are individual men and women and there are families."
Margaret Thatcher, 1987

Cwm y digon yw cymdogaeth,
cymuned gref o bentref bach
yn galw ar ei gilydd
am baned cymunedol
i greu llên siwgr a llaeth
cyn crwst y cacenau cras.

Cwm y digon yw cymdogaeth,
hanes sy'n gynnes a gwên
yn glyd, ac aelwydydd
yn mynd i ymweld;
mynnu galw mewn galar
â'u cywair fel gair ar y sgwâr.

Cwm y digon yw cymdogaeth,
mae'n codi o deithi'r bocs o dŵls
daeth i droi ac ystwytho drws
a'i golyn a newid golau,
a rhoi llais i'r hyn a'r llall
drwy arafwch sgriwdreifar.

Cwm y digon yw cymdogaeth,
sŵn y plant yn rasio'n y plwy
ar lôn lefn ar gefn y gwynt,
a'r cae chwarae yn chwil
yn hafau'r siglen ifanc.

Cwm y digon yw cymdogaeth
yn nyddiau oer y neuadd hon,
a môr y glaw dros ei muriau glas.
Lle mae'r tân trydan wrth ein traed,
mae cymdeithas ei hun yn crasu
o dan wres ein hanes ni.

I'r rhai sy'n gwadu'r awel,
y rhai na wêl elw
na nerth yn ein perthyn
i gymuned, mae'n gwm unig.
Iddyn nhw, mae'r dydd yn nos
a lle gwag heb ddrws ar agor
yw cwm y digon, lle mae
cymdogaeth.

Gwenallt Llwyd Ifan

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278

pp Rhagfyr 25.qxp_Layout 1 10/12/2025 10:11 Page 12

Bwrlwm y Ffair Aeaf

I nifer fawr ohonom mae cael mynychu'r Ffair Aeaf flynyddol yn Llanelwedd yn arwydd pendant fod y Nadolig ar y ffordd. Wedi wythnosau prysur o baratoi, braf unwaith yn rhagor oedd gweld llwyddiant yn dod i ran teuluoedd lleol. Cafodd teulu Tynant ffair lwyddiannus unwaith yn rhagor yn adran y gwartheg. Cipiodd Cwmtynant Nansi 7fed y wobr gyntaf yn nosbarth yr Heffrod Du Cymreig a theulu Tynant gipiodd y wobr gyntaf yn nosbarth y Bustych Duon Cymreig ysgafn gyda Cwmtynant Dion a'r ail wobr gyda Brysgaga Caradog. Aeth Cwmtynant Dion ymlaen i ennill Cil-wobr Pencampwriaeth y Bustych a Chil-wobr Pencampwriaeth y brîd.

Nid ym myd y bîff yn unig y mae teulu Tynant yn serennu wrth gwrs ond gyda'r dofednod hefyd a nifer ohonom yn mwynhau llafur caled y teulu fel rhan o'n cinio Nadolig. Daeth llwyddiant unwaith eto eleni yn yr adran ar gyfer dofednod wedi eu trin gyda thair wobr gyntaf a dwy ail wobr. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu ar eu llwyddiant a phob lwc gyda'r cystadlu i'r dyfodol. Darparwyd oen

Cwmtynant Dion gyda theulu Tynant

Par o foch Cymreig gyda theulu Glan Aber

hefyd gan deulu Tyngraig, Tal-y-bont i'r Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig a fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth Blasu Ŵyn Brodorol. Llongyfarchiadau iddynt ar ddod yn 3ydd.

Mae dyfodol amaethyddol yr ardal yn ddiogel yn nwylo brwdfrydig y genhedlaeth nesaf heb os. Bu llwyddiant unwaith yn rhagor gyda moch Penlan, Talsarn, sef teulu Eifiona Evans, Glan Aber. Enillodd par o foch Cymreig Adran Cutters (Pwysau 71-85Kg) y Gil Wobr ym Mhrif Bencampwriaeth adran y parau. Bu Mari ac Ieuan Evans yn cystadlu yng Nghystadleuaeth y Tywyswyr Ifanc yn adran y Moch. Llongyfarchiadau mawr i Ieuan am gipio'r 3ydd wobr yn adran i rai rhwng 10 ac 11 oed ac i Mari am ddod yn 3ydd hefyd i'r rhai dros 12 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Ynyr Siencyn, Tanrallt ar gipio'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Barnu Gwartheg Cigyddion y Ffermwyr Ifanc o dan 21 oed.

Dau arall o blant yr ardal fu'n cystadlu yn Llanelwedd eleni oedd y ffrindiau gorau Elsi Evans, Pantcoch ac Ela Williams, Maes y Deri, Tal-y-bont yn nosbarth tywyswyr ifanc yn adran y defaid. Da iawn chi ferched. Braf iawn gweld yr ieuenctid yn mwynhau'r cystadlu ac edrychwn ymlaen at ddarllen am eu llwyddiannau yn nhudalennau Papur Pawb am flynyddoedd lawer i ddod!

Ela ac Elsi yn mwynhau cystadlu

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Gyrfa Chwist

Nos Fercher, 17 Rhagfyr
8.00 o'r gloch
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Croeso cynnes i bawb

argraffu
lleol a rhesymol

ylolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 /www.ylolfa.com
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
Cymraeg